| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Cyngor Sir Ynys Môn |
| **DYDDIAD:** | 14 Medi, 2010 |
| **TEITL YR ADRODDIAD**: | Newid ynghylch cael gwared ar dir ym Mhenucheldre |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I nodi penderfyniad a gymerwyd fel mater o frys gan y Pwyllgor Gwaith ar 16 Mawrth, 2010 |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR TAI A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL** |

## 1.0 CEFNDIR

Cyflwynwyd yr adroddiad amgaeedig (Atodiad 1) i'r Pwyllgor Gwaith ar 16 Mawrth, 2010 fel mater o frys. Roedd hyn er mwyn sicrhau gwerthiant y tir cyn diwedd y flwyddyn ariannol, a thrwy hynny ddiogelu buddsoddiad cymhorthdal tai cymdeithasol arwyddocaol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, yn unol â pharagraff 4.5.16.10 o'r Cyfansoddiad.

Roedd y gwerthiant arfaethedig mewn perygl oherwydd anghysondeb yn y cynlluniau gwreiddiol a ddarganfuwyd yn hwyr gan gyfreithwyr wrth gwblhau gwerthiant yr eiddo.

Er gwybodaeth, ym Mhwyllgor 16 Mawrth, 2010 **"PENDERFYNWYD rhoi awdurdod i swyddogion gywiro'r cynllun cael gwared ar dir a gymeradwywyd yn flaenorol gan y Pwyllgor Gwaith yn Ionawr 2009, ac yn unol â'r tir a amlinellir mewn gwyrdd fel swydd wedi ei nodi yn Atodiad B yr adroddiad."**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 MAWRTH 2010** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **NEWID YNGHYLCH CAEL GWARED AR DIR YM MHENUCHELDRE** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CEISIO CANIATÂD BRYS I NEWID CYNLLUNIAU CAEL GWARED AR DIR Y CYTUNWYD ARNYNT YN IONAWR 2009** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **CYFARWYDDWR TAI A GWASNAETHAU CYMDEITHASOL** |

## 1.0 CEFNDIR

**1.1** Mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2009 penderfynwyd cael gwared ar barsel o dir, sydd wedi ei amlinellu'n goch ar y cynllun sydd ynghlwm (Atodiad A), i Gymdeithas Tai Eryri.

**1.2** Mae geiriad penderfyniad y Pwyllgor Gwaith yn cyfeirio'n benodol at y tir a amlienllir mewn coch fel y tir y mae caniatâd i'w werthu. O'r herwydd, ar hyn o bryd nid oes ond caniatâd i werthu'r tir hwn.

**1.3** Pwrpas cael gwared ar y tir yw fel bod modd i CTE ehangu'r llety sydd ar gael ym Mhenucheldre i ddarparu rhagor o unedau Gofal Ychwanegol. Mae darparu unedau Gofal Ychwanegol yn cyfrannu at amcanion lleol a chenedlaethol o ran materion iechyd, gofal cymdeithasol a lles ac mae'n hyrwyddo ac yn cefnogi annibyniaeth i bobl hyn.

## 2.0 Y SEFYLLFA AR HYN O BRYD

**2.1** Mae Cyfreithwyr sy'n gweithio ar gwblhau'r gwerthiant wedi dwyn sylw at anghysondeb rhwng y tir y mae CTE eisoes yn berchen arno a'r parsel o dir a fydd yn cael ei werthu yn unol ag Atodiad A.

**2.2** Mae'r cynllun yn Atodiad B yn dangos maint teitl y Cyngor a CTE yn y tir ym Mhenucheldre. Bydd Aelodau yn nodi y byddai gwerthu'r tir a amlinellir mewn coch fel y cytunwyd yn golygu y byddai'r Cyngor yn cadw llain o dir a amlinellir mewn gwyrdd yng nghanol datblygiad arfaethedig CTE.

**2.3** Yn amlwg nid oedd y Cyngor yn bwriadu cadw perchenogaeth o lain o dir sy'n bygwth ymarferoldeb y cynllun pwysig hwn a'r buddsoddiad lleol sy'n gysylltiedig ag ef.


**2.4** Mae'r Prisiwr Dosbarth wedi cadarnhau na fyddai diwygio a phlotio'n gywir y parsel o dir i gymryd i ystyriaeth y llain o dir uchod yn cael effaith o gwbl ar y prisiad gwreiddiol.

**2.5** Oni chwblheir y gwerthiant cyn diwedd Mawrth, efallai y collir Grant Tai Cymdeithasol sylweddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae costau'r cynllun cyfan yn rhai miliynau o bunnau.

Mae Cadeirydd y Cyngor wedi cadarnhau ei fod yn cefnogi'r cynnig ac y dylid ei drin fel mater o frys. O ganlyniad, yn unol â pharagraff 4.5.16.10 y Cyfansoddiad, ni fydd y trefniadau galw i mewn yn berthnasol os bydd y Pwyllgor Gwaith yn penderfynu derbyn 3.1 isod.

## 3.0 ARGYMHELLIAD

**3.1** Gofynnir i'r Aelodau ddirprwyo awdurdod i swyddogion gywiro'r cynllun gwerthu a gymeradwywyd yn Ionawr 2009. Bydd y cynllun diwygiedig yn cynnwys y tir a amlinellir mewn gwyrdd ac a ddangosir yn Atodiad B.




CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL


GWASANAETHAU EIDDO
PROPERTY SERVICES

PROPERTY REF.
19 PD 01 000

SCALE.
1:1000 @ A4

DATE
MAR.2010

LAND ADJACENT TO PENUCHELDRE, HOLYHEAD
APPENDIX A




CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

GWASANAETHAU EIDDO
PROPERTY SERVICES

PROPERTY REF.
19 PD 01 000

| SCALE. | DATE |
|---|---|
| 1:1000 @ A4 | MAR.2010 |

LAND ADJACENT TO PENUCHELDRE, HOLYHEAD
APPENDIX B

Reproduced from Ordnance Survey Land-Line Plus data with the permission of the controller of Her Majesty's Stationery Office. Ordnance Survey and Land-Line Plus are registered trademarks
© Crown Copyright 2002